

No.

PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2021

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd R.M. Birch ((Is-gadeirydd yn y Gadair); Cyngorwyr J. Aviet, G.D.D. Carroll, N.P. Hodges, M.J.G. Morgan, S.M. Perkes, A.R. Robertson ac L.O. Rowlands.

Cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned: Y Cyngorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri); G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), S. Griffiths (Cyngor Cymuned Dinas Powys), D. Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan), G. Smith (Cyngor Cymuned Llan-faes), G. Marks (Llanfihangel-y-pwll gyda Chyngor Cymunedol Leckwith), G. Kellen (Cyngor Cymuned Pendeulwyn), A. Cory (Amnewid) (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái) a I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn).

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr G. John a Dr. I.J. Johnson.

512 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

513 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cyngorwyr S.M. Hanks (Cadeirydd), C.A. Cave, A.C. Parker, R.A. Penrose a M.R. Wilson (Aelodau Bro Morgannwg) a Chyngorwyr H. Weddell (Cyngor Tref Y Bont Faen), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), Dr. A. Rees (Cyngor Cymuned Llancafarn), R. Thomas (Cyngor Cymuned Llandŵ), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), A. Phillips (Cyngor Cymunedol Llanbedr-y-fro), M. Jeffreys (Cyngor Cymunedol Sain Dunwyd), R. Sexton (Cyngor Cymunedol Gwenfô) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

514 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

515 CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR CYMUNED TREGOLWYN –
ARWYDDION BROWN, A48 –

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, gyda chymorth y Rheolwr Gweithredol dros Adfywio, Gyflwyniad PowerPoint i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r cais.

Nododd y cyflwyniad y meini prawf ar gyfer defnyddio testun gwyn ar arwyddion twristaidd brown, y meini prawf cymhwyster ar gyfer y broses ymgeisio a statws yr ymarfer adolygu ar gyfer y Polisi Arwyddion Twristiaeth presennol ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, trafododd y Pwyllgor y manteision a'r pwyntiau pwysig canlynol mewn perthynas â defnyddio a gosod arwyddion brown ar draws ardal Bro Morgannwg:

- Roedd yr holl gyfleusterau twristiaeth ledled Bro Morgannwg, gan gynnwys Tafarndai, wedi'u heffeithio'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y cyfyngiadau cymdeithasol a roddwyd ar waith oherwydd y pandemig cenedlaethol. Felly, byddai unrhyw beth y gellid ei wneud i gefnogi cyfleusterau twristiaeth wrth symud ymlaen o fudd ac yn cael ei groesawu.
- Mae arwyddion brown yn cefnogi ymdeimlad o le ac arwyddocâd ac yn annog pobl i ymweld â'r ardal dro ar ôl tro.
- Roedd tafarndai'n hyb yn y gymuned leol ac yn helpu i gynnal ymdeimlad o gymuned ac i leihau allgáu cymdeithasol.
- Ni allai tafarndai oroesi drwy fusnes lleol yn unig ac felly roedd angen iddynt fod yn hygyrch ac yn hawdd eu cyrraedd i ystod ehangach o gwsmeriaid.
- Roedd yr A48 drwy hyd Bro Morgannwg yn brif lwybr i gwsmeriaid y tu allan i'r ardal gyrraedd cyfleusterau twristiaeth yn y Fro.

Yn ogystal, trafododd y Pwyllgor y cyfyngiadau a'r gwahaniaethau canlynol a oedd yn amlwg oherwydd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru (LIC) a'r effaith ddilynol ar Bolisi Arwyddion Twristiaeth Bro Morgannwg:

- Dywedodd Deddfwriaeth LIC nad diben arwyddion brown oedd hysbysebu busnesau. Dylent gyfeirio heb hyrwyddo. Roedd gan y Cyngor ddyletswydd i gydymffurfio â deddfwriaeth LIC ac i gyflwyno pob cais am arwyddion brown i LIC i'w cymeradwyo.
- O ganlyniad i arian grant a gafwyd gan LIC yn 2007 drwy Gymunedau Gwledig Creadigol, rhoddwyd enwau rhai tafarndai ar arwyddion ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, dan y deddfwriaeth bresennol a pholisi cyfredol y Cyngor, nid oedd y Cyngor yn gallu cymeradwyo cais o'r fath ac roedd angen iddo ddilyn deddfwriaeth benodol ar gyfer defnyddio arwyddion brown. Felly, roedd rhai arwyddion presennol ar gyfer tafarndai ym Mro Morgannwg yn groes i'r polisi presennol, ond ni fyddai'r Cyngor yn symud yr arwyddion brown presennol nad oeddent yn cydymffurfio â'r polisi.

No.

- O ganlyniad i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, nid oedd Polisi Arwyddion presennol Bro Morgannwg yn ddigon hyblyg i helpu i gefnogi cyfleusterau twristiaeth gydag effeithiau'r pandemig cenedlaethol.
- Oherwydd natur ardaloedd mwy gwledig ym Mro Morgannwg, roedd rhai tafarndai'n haws dod o hyd iddynt nag eraill, fodd bynnag, nid y tafarndai mwy anodd dod o hyd iddynt oedd y rheiny a oedd yn cael eu nodi'n glir ag arwyddion o reidrwydd.
- Roedd yr adolygiad presennol o Bolisi Arwyddion Twristiaeth y Cyngor yn gyfle i gyflwyno achos penodol dros ddefnyddio arwyddion brown i hyrwyddo Tafarndai Bro Morgannwg ac i gyflawni dyletswydd foisol y Cyngor i gefnogi busnesau sy'n cael trafferthion.
- Mae LIC a'r Cyngor am roi cyn lleied â phosibl ar arwyddion lle bo'n bosibl er mwyn osgoi tynnu sylw gyrrwyr yn ddiangen am resymau iechyd a diogelwch amlwg.
- Nid oedd yn glir o fewn Deddfwriaeth LIC pam y gwaharddwyd hysbysebu busnesau lleol ar arwyddion brown ac nid oedd yn glir beth oedd ystyr hysbysebu ym marn LIC.

Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau yn ystod y drafodaeth, cododd y Swyddogion y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Cyngor am hyrwyddo'r holl gyfleusterau twristiaeth ledled Bro Morgannwg gymaint â phosibl drwy amrywiaeth o ddulliau arloesol yn ogystal ag arwyddion brown, er enghraifft:
 - ymgysylltu â fideo-flogwyr i hysbysebu cyfleusterau twristiaeth yn ehangach, a
 - rhoi enwau tafarndai ar arwyddion mewn digwyddiadau cyhoeddus h.y. nodi tafarndai ar hyd y llwybrau cerdded ar gyfer Mis Cerdded sydd ar ddod ym mis Mawrth 2022.
- Byddai'r gost o weithredu Arwyddion Brown ar hyd ffordd fawr, fel yr A48, yn uwch nag mewn ardaloedd ffyrdd arafach oherwydd y gofyniad i dynnu'r arwyddion presennol, i ail-weithgynhyrchu'r arwydd ei hun ac yna ei godi eto.
- Mewn perthynas â'r enghraifft benodol a roddwyd gan Gyngor Tregolwyn (fel y nodir o fewn y cais i ystyried) a'r gofyniad i'r Sycamore Tree Pub gael ei nodi ar arwyddion o arwydd Tregolwyn ar hyd yr A48, roedd y Cyngor wedi cynnig gwneud cais i Lywodraeth Cymru am ychwanegu symbol fforc a llwy at yr arwydd drwy gyfaddawd nad yw'n gwbl unol â pholisi presennol y Cyngor.
- Byddai cynnwys symbol fforc a llwy ar arwyddion yn hytrach nag enw busnes penodol yn lliniaru unrhyw newidiadau i arwyddion a chostau dilynol yn y dyfodol oherwydd newid o ran perchenogion a/neu enw busnes.
- Yr alldro ariannol disgwylidig ar gyfer Cyllideb y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth oedd gorwariant o tua £1.5m. Felly, nid oedd unrhyw arian sbâr i addasu arwyddion nac i ychwanegu atynt.
- Nid oedd arwyddion brown yn un o swyddogaethau statudol y Cyngor, ond roedd y Cyngor wedi ymrwmo i gefnogi'r sector twristiaeth.
- Cynhaliodd y Cyngor brosiect a ariannwyd gan yr UE yn 2004 i gefnogi tafarndai i arallgyfeirio i ffyrddiau incwm ychwanegol drwy 'Pub is The Hub,' Elusen Tywysog Cymru. Parhaodd y Cyngor i weithio gyda'r elusen heb

No.

arian i gefnogi prosiectau, yn fwy diweddar, ar dafarn yn Y Barri. Wrth symud ymlaen roedd y Cyngor yn cefnogi'r elusen mewn ymgais i gael arian i adnewyddu ei gwaith yng Nghymru.

- Gallai unrhyw berson wneud cais am arwydd brown â thestun gwyn i gyfeirio cwsmeriaid at ei fusnes, naill ai mewn lleoliad gwledig neu leoliad mwy trefol, ond mae'n rhaid i'r cais am arwydd fodloni deddfwriaeth ac mae'n rhaid i'r busnes ei hun ariannu'r arwydd.

I gloi, rhoddodd y Cadeirydd grynodedb o gonsensws y drafodaeth a dywedodd nad oedd y Pwyllgor yn cytuno â deddfwriaeth LIC am nad oedd yn ddigon defnyddiol i dafarndai a chymunedau heb unrhyw gyfleusterau lleol eraill gerllaw ac nad oedd yn cydnabod yn ddigonol rôl Tafarndai mewn bywyd cymunedol.

CYTUNWYD –

- (1) Y dylid trosglwyddo sylwadau'r Pwyllgor, fel y nodir uchod, ynghylch pwysigrwydd a manteision arwyddion brown ar draws Bro Morgannwg i'r Cabinet.
- (2) Gofynnir i'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y Cyngor cyfan ynghylch y cyfyngiadau a'r gwahaniaethau a achosir gan ei ddeddfwriaeth gyfredol fel y nodir uchod.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn cael barn y Pwyllgor i'w ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad 'Diwygiadau Arfaethedig i'r Polisi Arwyddo Twristiaeth presennol' y bwriedir eu hystyried gan y Cabinet yn y dyfodol agos.
- (2) Hyrwyddo newid effeithiol i Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a Pholisi Bro Morgannwg wedi hynny i gefnogi busnesau twristiaeth lleol yn well ac yn benodol y defnydd o arwyddion brown i hysbysebu Tai Cyhoeddus.